

Ymateb Cymwysterau Cymru i bryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y cynigion i ddiwygio er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn Adeiladu'r Dyfodol, sef yr adolygiad o gymwysterau yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad o blaid ein cynigion i ddiwygio, gwnaeth yr ymatebwyr hyn – yn ogystal â'r ymatebwyr eraill nad oeddent o blaid ein cynigion – roi adborth, gofyn cwestiynau a mynegi pryderon dilys ynglŷn â'n hopsiynau arfaethedig (wedi'u rhestru fel opsiynau A2, B2 a C2 yn y ddogfen ymgynghori). Mae'r adborth hwn wedi'i grynhoi yn ein hadroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar wahân.

Yn y tablau dilynol, rydym yn ateb y cwestiynau a'r pryderon hynny ac yn nodi sut rydym yn bwriadu eu hystyried yn y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd yr adborth gwerthfawr hwn i ni.

Opsiwn A2 – cymwysterau yr astudir ar eu cyfer mewn ysgolion yn bennaf	
Pryder a fynegwyd	Sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r pryder
Dylid cynnwys arbenigwyr yn y sector yn y broses o ddatblygu unrhyw gymhwyster newydd yn y dyfodol.	Byddwn yn sicrhau bod arbenigwyr yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau hyn ac adolygu'r cymwysterau a gaiff eu cyflwyno i'w cymeradwyo.
Gall gormod o newid arwain at gostau uwch a pheri dryswch i ysgolion.	Ni fydd unrhyw gymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno am gryn amser. Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod digon o rybudd yn cael ei roi i ysgolion a darparwyr dysgu eraill er mwyn iddynt baratoi ar gyfer cymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno. Byddwn yn cadw gwerth am arian mewn cof wrth gymeradwyo cymwysterau newydd. Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu clir.
Mae'n anodd datblygu un cymhwyster a all gwmpasu pob agwedd ar Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.	Dylai'r cymwysterau y mae dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yn astudio ar eu cyfer fod yn rhai cyffredinol a chyflwyniadol. Er na fyddant yn cwmpasu pob agwedd ar y sector, dylai cwmpas y cymwysterau newydd fod yn ddigon cyffredinol er mwyn tanio diddordeb amrywiaeth eang o ddysgwyr gyda golwg ar symud ymlaen i addysg bellach neu waith.
Opsiwn B2 – cymwysterau yr astudir ar eu cyfer mewn addysg bellach yn bennaf	
Pryder a fynegwyd	Sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r pryder
Byddai'r cymwysterau mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ar gyfer dysgwyr mewn addysg bellach yng Nghymru a Lloegr yn wahanol, gan beri dryswch i rieni, dysgwyr ac, yn arbennig, gyflogwyr sy'n gweithredu yn y ddwy wlad. Dylai fod modd 'cludo' unrhyw gymwysterau a ddyfernir y tu hwnt i Gymru.	O ran y sgiliau crefft y bydd dysgwyr yn eu dysgu, byddwn yn sicrhau y bydd dysgwyr yn cyrraedd yr un safonau galwedigaethol sy'n ofynnol yng Nghymru a Lloegr, a byddwn yn gweithio gyda'r grefft a'r cyrff proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn cydnabod dysgwyr sydd wedi cymhwyso yn y naill wlad neu'r llall yn yr un ffordd. Byddwn yn datblygu deunydd cyfathrebu a negeseuon clir ar gyfer pawb sydd â diddordeb.
Byddai'n anodd cynllunio cymhwyster sy'n sail i'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig cyfan. Mae	Rydym yn cynnig sicrhau bod y cymwysterau Sylfaen a Dilyniant yn darparu sail gadarn a chyffredinol o wybodaeth a sgiliau er mwyn helpu dysgwyr i gael

<p>perygl na fydd sgiliau na thechnolegau newydd neu ddatblygol yn cael eu hadlewyrchu.</p>	<p>gwaith yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn mireinio eu sgiliau yn eu dewis grefft tra byddant yn gweithio i gyflogwr wedi hynny, yn ddelfrydol ar raglen brentisiaeth. Bydd y cymwysterau Sylfaen yn canolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r datblygiadau mewn technolegau newydd a datblygol. Caiff y ddealltwriaeth hon ei hatgyfnerthu wrth iddynt symud ymlaen i gymhwyster Prentisiaeth.</p>
<p>Efallai na fydd digon o arian nac amser i'w gwneud yn bosibl i gyflwyno rhaglen Sylfaen gyffredin yn ystod blwyddyn un.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod y cymwysterau Sylfaen yn cael eu cynllunio i fod yr un faint â rhaglen un flwyddyn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ei helpu i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hariannu'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein cynigion.</p>
<p>Ni fydd asesiadau ymarferol generig yn sicrhau 'cymhwysedd'. Ni fydd yn bosibl dibynnu ar brofion gwybodaeth yn unig er mwyn ymdrin â'r sgiliau crefft arbenigol.</p>	<p>Nid bwriad y cymwysterau hyn yw sicrhau cymhwysedd. Diben y cymwysterau hyn yw helpu i baratoi dysgwyr yn well ar gyfer datblygu cymhwysedd yn y gweithle drwy brentisiaeth.</p>
<p>Nid yw lleoliad/profiad gwaith yn orfodol, sy'n golygu mai dim ond amodau sydd wedi'u hefelychu y bydd dysgwyr yn cael profiad ohonynt. Byddai hyn yn golygu na fyddant yn gallu ymdopi â gwaith 'go iawn' ar safle adeiladu.</p>	<p>Er nad yw lleoliad gwaith yn orfodol, bydd colegau'n cael eu hannog i'w cynnig lle bo'n briodol, yn enwedig wrth gyflwyno'r cymwysterau Dilyniant. Dim ond pan fyddant yn gweithio, fel rhan o brentisiaeth os oes modd, y bydd dysgwyr yn dod yn alwedigaethol gymwys.</p>
<p>Bydd yn hollbwysig ymgynghori ac ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn bodloni gofynion y diwydiant ac yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i brentisiaeth neu waith priodol.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chyflogwyr a'r cyrff perthnasol yn y sector wrth ddatblygu'r cymwysterau newydd.</p>
<p>Pryderon ynghylch fforddiadwyedd a dichonoldeb cymwysterau Cymru'n unig.</p>	<p>Drwy gyfyngu ar y farchnad a chomisiynu un corff dyfarnu i ddatblygu'r cymwysterau newydd, rydym yn cymryd camau i sicrhau dichonoldeb cymwysterau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr yng Nghymru.</p>
<p>Mae'n bosibl y byddai darparwyr dysgu yn wynebu newidiadau mwy sylweddol.</p>	<p>Rydym yn ymwybodol y byddai cyflwyno'r cymwysterau Sylfaen a Dilyniant newydd yn golygu bod angen rheoli newid yn gadarn ac yn effeithiol er mwyn cefnogi'r maes addysg bellach drwy gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff a chymdeithasau proffesiynol a chyrrff a chymdeithasau yn y sector, Cymwysterau Cymru, Colegau Cymru, rhwydwaith Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain (BACH), y corff dyfarnu a gaiff ei gomisiynu a phartneriaid eraill. Byddai hyn yn golygu bod angen datblygu staff er mwyn eu paratoi ar gyfer y cymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno. Bydd angen i ddarparwyr dysgu baratoi rhaglenni dysgu newydd a dod o hyd i ffyrdd o gyflwyno elfennau newydd y cymwysterau Sylfaen a Dilyniant. Byddai</p>

	angen ymgysylltu'n helaeth â chyflogwyr hefyd er mwyn hwyluso'r broses o symud ymlaen i waith.
Ni fydd y cymwysterau newydd wedi profi eu gwerth mewn pryd ar gyfer y garfan gyntaf o fyfyrwyr.	Byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu sy'n cael ei gomisiynu, cyrff yn y sector, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu a gweithredu rhaglen rheoli newid gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod canolfannau yn barod i gyflwyno a gweithredu'r cymwysterau newydd.
Gallai'r baich gweinyddol ar ganolfannau gynyddu drwy weithio gyda chyrff dyfarnu newydd.	Byddwn yn ystyried y pryder hwn wrth ystyried trefniadau'r corff dyfarnu a gaiff ei gomisiynu i gyflwyno'r cymwysterau newydd.
Drwy gael un corff dyfarnu, gallai hynny olygu nad oes unrhyw gystadleuaeth a all effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth.	Byddwn yn sicrhau bod y corff dyfarnu'n rhoi prosesau sicrhau ansawdd da ar waith ar gyfer y cymwysterau newydd.
Opsiwn C2 – cymwysterau yr astudir ar eu cyfer fel rhan o brentisiaethau	
Pryder a fynegwyd	Sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r pryder
Bydd yn anodd cynllunio cymhwyster yn unol â'r cynnig a sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn cael ei gynnal.	Bydd cynllun y cymhwyster yn hyblyg ac yn dibynnu ar y safonau galwedigaethol/diwydiannol presennol ar unrhyw un adeg. Yn hyn o beth, bydd yn bosibl sicrhau bod y cymhwyster yn dal i fod yn gyfoes.
Mae angen asesiad credadwy ar y safle, fel sy'n cael ei gynnig fel rhan o gymwysterau NVQ.	Mae ein cynigion yn cynnwys rhagofyniad i'r cyflogwr gadarnhau bod y prentis wedi cwblhau'r brentisiaeth ac wedi cyrraedd pob un o'r safonau galwedigaethol cenedlaethol craidd neu safonau'r diwydiant (os mai hyn sy'n well gan y diwydiant) ar gyfer ei ddewis grefft. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym drwy gydol yr adolygiad mai cyflogwyr oedd yn y sefyllfa orau i farnu cymhwysedd. Byddwn yn cyfuno barn cyflogwyr â dull asesu cadarn wedi'i seilio'n gadarn ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan ymgeiswyr ar y safle.
Bydd yn anoddach datblygu'r cymhwyster cyffredinol gyda'r sectorau arbenigol pan nad oes gan gyrff dyfarnu na darparwyr yr arbenigedd na'r cyfleusterau arbenigol.	O ran y gwaith a wneir wrth weithio, caiff cymhwysedd galwedigaethol arbenigol ei gadarnhau gan y cyflogwr. Caiff elfennau eu hasesu'n allanol gan aseswyr arbenigol drwy gyfuno'u sgiliau ledled Cymru.
Efallai na chaiff ei gydnabod gan gyflogwyr yn Lloegr / Peri dryswch i gyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.	Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrff yn y sector adeiladu a gwasanaethau adeiladu a chyrff a chymdeithasau proffesiynol yn cymeradwyo ac yn cydnabod y cymwysterau newydd yn glir. Byddwn yn datblygu strategaethau cyfathrebu clir ar y cyd â phartneriaid allweddol.
Byddai angen i brentisiaid gwaith trydanol sefyll y prawf AM2 ar wahân i'r brentisiaeth o hyd.	Byddai'r prawf AM2 yn rhan o'r fframwaith prentisiaeth o hyd.
Ymddengys bod yr opsiwn hwn yn gofyn am ddatblygiad newydd ar raddfa eang ac nad yw'n rhoi'r cyfle i adeiladu ar ddarpariaeth bresennol o ryw fath.	Bydd y cymwysterau'n gofyn i ddysgwyr barhau i ddysgu a datblygu sgiliau yn erbyn y safonau galwedigaethol a diwydiannol cydnabyddedig – felly bydd darpariaeth dysgu dda yn parhau i gefnogi hyn. Rydym yn cynnig cyflwyno rhywfaint o gynnwys cyffredinol ar y cam Sylfaen, oherwydd nodwyd ei fod ar goll o'r ddarpariaeth bresennol. Rydym yn cynnig

	dulliau newydd o asesu a fydd yn lleihau'r baich asesu ar ddysgwyr a gwella ansawdd. Byddwn yn gweithio gyda'r sector a darparwyr dysgu i gyflawni hyn.
Os bydd y cymwysterau newydd yn defnyddio'r teitl 'NVQ', gellid eu cymysgu â chymwysterau NVQ presennol, ac mae'r cymwysterau hyn yn dra wahanol iddynt.	Byddwn yn parhau i ymchwilio i weld a fydd defnyddio'r term 'NVQ' yn briodol wrth ardystio. Fodd bynnag, fel gyda'r cymwysterau presennol, bydd gofyn i ddysgwyr ddangos cymhwysedd yn erbyn y safonau angenrheidiol: rydym yn gwneud hyn yn ofyniad cyn mynediad â sicrwydd ansawdd sicr er mwyn adeiladu ar hyn gydag asesiadau cadarn pellach unwaith y caiff dysgwyr ei gymeradwyo'n gymwys.
Os bydd y meini prawf cymeradwyo yn diffinio'n fanwl y math o ddull y mae angen ei ddefnyddio wrth lunio, datblygu ac asesu cymwysterau, yna bydd yn cyfyngu ar y gallu i arloesi, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd cyflogwyr/dysgwyr.	Diben ein cynigion yw bod yn hyblyg i'r corff dyfarnu, cyflogwyr a dysgwyr. Ein bwriad yw sicrhau y gall cyrff dyfarnu gynnig dulliau amgen o asesu o hyd. Bydd modd teilwra'r cymwysterau i'r grefft/crefftau sy'n berthnasol i'r dysgwyr, a bydd cyfle i gynnwys crefftau arbenigol.
Pryderon ynghylch pa mor barod yw busnesau bach a chanolig/isgontractwyr i asesu cymhwysedd cyn mynediad.	Byddwn yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol yn y sector a'r cyrff dyfarnu er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn barod i asesu cymhwysedd cyn mynediad.
Mae angen i'r cymwysterau gyd-fynd â gofynion cardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS).	Byddwn yn gweithio gyda chyrff yn y sector a CSCS er mwyn sicrhau bod y cymwysterau'n cyd-fynd â gofynion cardiau CSCS.
Yr effaith ganlyniadol ar bortffolios cyrff dyfarnu ac ansefydlogi'r farchnad; gallai cyfyngiadau ar y rhan hon o'r farchnad yng Nghymru effeithio ar sectorau eraill yng Nghymru.	Rydym yn ymwybodol o'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar y farchnad, ac nid ydym yn gwneud hyn oni bai ei fod er lles dysgwyr yng Nghymru.
Wrth i gyflogwyr chwarae rôl fwy gweithredol yn y broses o asesu prentisiaid, mae'n bwysig bod system unioni ar waith os bydd prentis yn teimlo ei fod yn cael ei drin yn annheg gan gyflogwyr.	Bydd prentisiaid yn gallu dilyn y llwybrau apelio presennol mewn perthynas â'u prentisiaeth yn gyffredinol a mynd at y corff dyfarnu mewn perthynas â'u cymhwyster. Bydd darparwyr dysgu yn sicrhau ansawdd proses o gymeradwyo cymhwysedd er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu barnu'n deg.
Byddai cyfundrefn asesu wahanol ar gyfer y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru i'r un yn Lloegr mewn perthynas â phrentisiaethau. Ar yr wyneb, efallai y bydd hyn yn anghyfleus i gyflogwyr ac yn eu drysu.	Efallai y bydd dull mwy cyson o asesu prentisiaid ym mhob rhan o'r sector, gan ddefnyddio technegau y gwyddom eu bod yn cael eu cydnabod yn rhai dilys yn Lloegr, yn arwain at gynnig cliriach, mwy cydlynol yng Nghymru na'r hyn a geir yn Lloegr.